Adnodd 2

# Y CRIW Mentrus

## Helpwch ein hysgol i fod yn Griw Mentrus!



**Nod y Criw Mentrus yw datblygu sgiliau ac agweddau disgyblion ar gyfer menter mewn ffordd fywiog a hwyliog. Er mwyn meithrin y genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid yng Nghymru, rydym angen cymorth gan arbenigwyr fel chi sydd wedi datblygu eu syniadau eu hunain ac sydd bellach yn rhedeg busnes llwyddiannus.**

### Sut allwch chi helpu

Gwyddom fod entrepreneuriaid yn bobl brysur, felly eich penderfyniad chi yw sut rhoddwch chi'ch amser. Gallech chi:

- Fod yn rhywun sy'n gallu ein helpu i feddwl am syniad busnes gwych.
- Ymweld a dweud wrthyn ni sut oedd pethau i chi wrth sefydlu'ch busnes.
- Bod yn fentor sy'n gallu ein cynghori ar beth i'w wneud i lwyddo.
- Ein cefnogi ni pan fyddwn ni'n ceisio datrys problem arbennig o anodd.
- Bod yn 'Ddraig' i ni o'r Ffau a bod yn onest gyda ni os credwch y gallai'n syniad ni fod yn well.
- Unrhyw ffordd arall y gwelwch chi'n addas!

### Pam dylech chi helpu

- Bydd yn helpu'ch busnes chi ac yn dangos bod ots gennych am eich cymuned.
- Gallai eich helpu i feddwl am syniadau da am eich busnes eich hun.
- Byddwch chi'n cael amser wrth eich bodd.

Mae'r Criw Mentrus yn cyfrannu at Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru i gynorthwyo pobl ifanc 5-25 mlwydd oed i archwilio syniadau ar gyfer busnes.




Am ragor o wybodaeth, neu i ddysgu am fynd yn Fodel Rôl Syniadau Mawr Cymru, ewch i wefan Syniadau Mawr Cymru.
**www.YCriwMentrus.com**

Syniadau Mawr Cymru
Big Ideas Wales

Noddwr Cyswllt
NatWest Cymru

Busnes Cymru | Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government